**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Cyllideb Atodol 2013-14 (Mehefin 2013)

Gorffennaf 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/1168
Rhif dogfen:13/053

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Cyllideb Atodol 2013-14 (Mehefin 2013)

Gorffennaf 2013

Dr Eleanor Roy

Cafodd Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 25 Mehefin 2013. Mae'n cysoni strwythurau cyllidebol 2013-14 â'r newidiadau ym mhortffolios y Gweinidogion a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013. Mae hefyd yn nodi nifer o drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU ac yn cynnig dyraniadau o gronfeydd wrth gefn, yn ogystal â symudiadau rhwng ac o fewn portffolios.

Diben y papur hwn yw cyfrannu at y gwaith o graffu ar y gyllideb atodol. Mae'n rhoi manylion y newidiadau cyffredinol i floc Cymru a dyraniadau i bortffolios Llywodraeth Cymru o'u cymharu â Chyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan. Mae hefyd yn rhoi manylion y newidiadau a wnaed ar ôl cysoni'r strwythurau cyllidebol â'r newidiadau ym mhortffolios y Gweinidogion a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth
Ymchwil

## Crynodeb

Mae Cyllideb Atodol 2013-14, a gyhoeddwyd ar 25 Mehefin 2013, yn diwygio Cyllideb Derfynol 2013-14, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2012.

Mae'r gyllideb atodol hon yn cyflawni tri phrif ddiben:

- Mae'n cysoni'r strwythurau cyllidebol â'r newidiadau ym mhortffolios y Gweinidogion a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013;
- Mae'n dyrannu arian o gronfeydd wrth gefn, fel y cynigiwyd ers y derbyniwyd cynnig y Gyllideb Derfynol; ac
- Mae'n addasu'r llinellau sylfaen i ystyried y trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU.

**Mae cynnig y gyllideb atodol yn gofyn i'r Cynulliad ganiatáu i £247.4 miliwn ychwanegol gael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Weinidogion Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2013-14.**

O'u cymharu â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, mae:

- Cynnydd o 2.6 y cant, neu £396.4 miliwn, yng nghyfanswm y gwariant a reolir (TME) yn gyffredinol.
- Cynnydd o 2.4 y cant, neu £362 miliwn, yn y TME a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Cynnydd o 2.4 y cant, neu £356.8 miliwn, yn y terfyn gwariant adrannol (DEL) yn gyffredinol.
- Cynnydd o 2.2 y cant, neu £322.4 miliwn, yn y DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Cynnydd o 1.8 y cant, neu £246.2 miliwn, yn y DEL refeniw a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Cynnydd o 6.6. y cant, neu £76.2 miliwn, yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Cynnydd o 14.3 y cant, neu £39.6 miliwn, yn y gwariant a reolir yn flynyddol (AME).

# Cynnwys


**1. Cyllideb Atodol Gyntaf 2013-14 .......... 1**

*1.1. Ailstrwythuro'r gyllideb .......... 2*

**2. Y prif ffigurau .......... 3**

*2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME) .......... 3*
*2.2. Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) .......... 6*
*2.2.1. DEL Refeniw .......... 9*
*2.2.2. DEL cyfalaf .......... 12*
*2.3. Gwariant a reolir yn flynyddol (AME) .......... 15*

**3. Newidiadau i'r llinellau sylfaen a symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn .......... 17**

*3.1. Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU .......... 19*
*3.2. Dyraniadau i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru .......... 20*
*3.3. Y system cyfnewid cyllidebau .......... 20*

**4. Trosglwyddiadau rhwng y portffolios .......... 21**

**5. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol .......... 24**

**6. Llywodraeth leol .......... 26**

**7. Cymunedau a Threchu Tlodi .......... 28**

**8. Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth .......... 30**

**9. Addysg a Sgiliau .......... 32**

**10. Cyfoeth Naturiol a Bwyd .......... 34**

**11. Tai ac Adfywio .......... 37**

**12. Diwylliant a Chwaraeon .......... 39**

**13. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu .......... 41**

# 1. Cyllideb Atodol Gyntaf 2013-14

Gosododd y Gweinidog Cyllid (Jane Hutt AC) gynnig y Gyllideb Atodol gyntaf ar gyfer 2013-14[1] ar 25 Mehefin 2013. Yn ogystal, cyflwynwyd nodyn esboniadol[2] a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEG).[3] [4] Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio Cyllideb Derfynol 2013-14,[5] a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2012. Yn ei datganiad, esboniodd y Gweinidog brif ddiben y gyllideb hon:

> ... alinio strwythurau cyllidebol 2013-14 â'r newidiadau ym mhortffolios a chyfrifoldebau'r Gweinidogion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth, a dangos y newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Derfynol 2013-14 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd. Mae'n nodi hefyd nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng Adrannau Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau ag Adrannau Llywodraeth y DU. Mae hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol.[6]

**Mae cynnig y gyllideb atodol yn gofyn i'r Cynulliad awdurdodi i £247.4 miliwn ychwanegol gael ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru i Weinidogion Cymru yn y flwyddyn ariannol 2013-14.**[7]

Mae'r ffigurau yn y papur hwn yn ymwneud â newidiadau yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol yn unig, ac felly fe'u dangosir **ar ffurf arian parod**; ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.

Mae rhagor o wybodaeth am broses y gyllideb atodol i'w chael yng nghyfres yr Hysbysiadau Hwylus ar y Gyllideb a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ac sydd i'w gweld yn ei adran **Hysbysiadau Hwylus**.

---

[1] Llywodraeth Cymru, ***Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14,*** 25 Mehefin 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[2] Llywodraeth Cymru, ***Cyllideb Atodol 2013-14 Nodyn Esboniadol***, 25 Mehefin 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[3] **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli.Y prif grwpiau gwariant yw lefel uchaf y manylion hyn ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gylch gwaith y Gweinidogion. Islaw lefel y MEG, nodir y gwariant yn ôl y **meysydd rhaglenni gwariant** (SPA) ac, o fewn y rhain, ar ffurf **camau gweithredu**.

[4] Llywodraeth Cymru, ***Cyllideb Atodol 2013-14 Tablau Dyrannu Gwariant***, 25 Mehefin 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]]

[5] Llywodraeth Cymru, **Cyllideb Derfynol 2013-14**, Tachwedd 2012 [fel ar 25 Mehefin 2013]

[6] Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Cyllid (Jane Hutt) ***Cyllideb Atodol gyntaf 2013-14*** Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 25 Mehefin 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[7] Llywodraeth Cymru, ***Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14***, 25 Mehefin 2013 (Atodlen 5, Tabl 2). Sylwch fod y ffigurau a gyflwynir yn y cynnig wedi'u seilio ar adnoddau, tra bo'r ffigurau a gyflwynir yn y tablau MEG, y nodyn esboniadol a'r papur hwn wedi'u cyflwyno ar sail weinyddol . Felly, nid yw'r £247.4 miliwn yn cyfateb â'r ffigurau a gyflwynir drwy'r papur hwn, neu yn y nodyn esboniadol neu'r tablau dyrannu a gyhoeddwyd. Mae'r gyllideb weinyddol yn cynnwys eitemau sy'n sgorio y tu allan i gyfrifon y Llywodraeth, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adnoddau sydd eu hangen ar Lywodraeth Cymru. [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

## 1.1. *Ailstrwythuro'r gyllideb*

Mae'r gyllideb atodol yn cysoni'r strwythurau cyllidebol â'r newidiadau ym mhortffolios y Gweinidogion a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2013.[8] Oherwydd hyn, bu symudiadau ym mhob lefel o'r gyllideb i greu'r strwythurau portffolio newydd, fel a ganlyn:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Llywodraeth Leol
- Cymunedau a Threchu Tlodi
- Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
- Addysg a Sgiliau
- Cyfoeth Naturiol a Bwyd
- Tai ac Adfywio
- Diwylliant a Chwaraeon
- Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Ceir rhagor o fanylion am natur y newidiadau hyn yn y nodyn esboniadol sy'n cyd-fynd â'r gyllideb, ac mae hefyd yn cynnwys atodiad sy'n dangos y symudiadau penodol o'u cymharu â Chyllideb Derfynol 2013-14 ac, felly, yn cynnig llinell sylfaen wedi'i hailddatgan ar gyfer 2013-14, a ffigurau dangosol wedi'u hailddatgan ar gyfer 2014-15.[9] Fel rheol, mae'r newidiadau'n golygu symud meysydd rhaglenni gwariant (SPA)[10] neu gamau gweithredu[11] cyfan rhwng y naill bortffolio i'r llall, er bod camau gweithredu wedi'u rhannu weithiau.

Dylid nodi mai **strwythurol yn unig yw natur y newidiadau hyn, ac fe'u gwnaed dim ond i gysoni'r strwythurau cyllidebol â'r newidiadau yng nghyfrifoldebau'r Gweinidogion**. Mae'r holl dablau yn y papur hwn yn dangos ffigurau gwreiddiol 2013-14 a 2014-15, fel y maent yn ymddangos yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, y newidiadau strwythurol i gysoni'r strwythurau cyllidebol a'r ffigurau dangosol wedi'u hailddatgan ar gyfer 2014-15. Dangosir y newidiadau a wnaed i'r gyllideb atodol hon gan eu cymharu â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-

---

[8] Llywodraeth Cymru, Carwyn Jones (Y Prif Weinidog), ***Ad-drefnu'r Cabinet***, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 14 Mawrth 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[9] Llywodraeth Cymru, ***Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14 Nodyn Esboniadol***, 25 Mehefin 2013. [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[10] **Maes rhaglenni gwariant (SPA)** – rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn nifer o lefelau o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y meysydd rhaglenni gwariant yw'r ail lefel o fanylder o dan y prif grwpiau gwariant ac maent yn diffinio'r grwpiau dyrannu penodol yn ôl y math o wasanaethau sydd i'w darparu.

[11] **Camau gweithredu** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn gategorïau amrywiol at ddibenion monitro a rheoli. Y camau gweithredu yw'r categori manylaf yn nogfennau'r gyllideb a gyhoeddir ac maent yn nodi'r symiau a ddyrennir i feysydd polisi neu fentrau. Nid ydynt, o reidrwydd, yn cyfateb i bolisïau neu raglenni penodol. Mae'r camau gweithredu wedi'u cynnwys yn y meysydd rhaglenni gwariant.

14 wedi'u hailddatgan. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau a wnaed ym mhob portffolio yn adrannau 5 i 13 o'r papur hwn.

## 2. Y prif ffigurau

Mae'r rhan hon yn rhoi manylion am y prif newidiadau a wnaed yn y gyllideb atodol hon. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau o fewn pob MEG ar lefel meysydd y rhaglenni gwariant (SPA) yn adrannau 5 i 13 o'r papur hwn.

### *2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)*

Mae **tabl 1** yn rhoi trosolwg ar y newidiadau yng nghyfanswm y dyraniadau ar gyfer gwariant a reolir (TME).[12] O gymharu hyn â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, gwelir:

- Bod cynnydd o 2.6 y cant, neu £396.4 miliwn, yng nghyfanswm y TME ym mloc Cymru.
- Bod cynnydd o 2.4 y cant, neu £362 miliwn, yn y TME a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Bod y cynnydd mwyaf yn y TME, ar ffurf arian parod, i'w weld yn MEG Llywodraeth Leol, sef cynnydd o £299.4 miliwn, neu 6.7 y cant.
- Bod y cynnydd canrannol mwyaf yn y TME i'w weld ym mhorffolios Llywodraeth Leol a Thai ac Adfywio, sef cynnydd o 6.7 y cant yn y ddau.
- Bod y gostyngiad mwyaf yn y TME, ar ffurf arian parod, i'w weld yn MEG Addysg a Sgiliau, sef gostyngiad o £8.6 miliwn, neu 0.4 y cant.
- Bod y gostyngiad canrannol mwyaf yn y TME i'w weld yn MEG y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sef gostyngiad o 0.9 y cant, neu £3.2 miliwn.

---

[12] **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** – cyfanswm y ddwy elfen o'r gyllideb, sef y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a'r terfynau gwariant adrannol (DEL).

**Tabl 1: Newidiadau yng nghyfanswm y gwariant a reolir (TME)**

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan | Cylideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i hailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6,429,870 | -129,678 | 6,300,192 | 6,319,093 | 18,901 | 0.3 | 6,552,518 | -131,678 | 6,420,840 |
| Llywodraeth Leol | 5,204,242 | -743,991 | 4,460,251 | 4,759,684 | 299,433 | 6.7 | 5,258,111 | -771,460 | 4,486,651 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 199,313 | 199,313 | 212,006 | 12,693 | 6.4 | 0 | 199,958 | 199,958 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 315,344 | 584,466 | 899,810 | 900,527 | 717 | 0.1 | 325,253 | 614,835 | 940,088 |
| Addysg a Sgiliau | 2,047,802 | -1,500 | 2,046,302 | 2,037,661 | -8,641 | -0.4 | 2,038,617 | -145 | 2,038,472 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 326,766 | 71,432 | 398,198 | 413,902 | 15,704 | 3.9 | 328,123 | 68,532 | 396,655 |
| Tai ac Adfywio | 488,226 | -118,168 | 370,058 | 394,930 | 24,872 | 6.7 | 490,477 | -118,214 | 372,263 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 0 | 140,949 | 140,949 | 142,462 | 1,513 | 1.1 | 0 | 140,995 | 140,995 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 350,243 | -2,823 | 347,420 | 344,223 | -3,197 | -0.9 | 353,257 | -2,823 | 350,434 |
| **Cyfanswm Dyraniadau TME Llywodraeth Cymru** | **15,162,493** | **0** | **15,162,493** | **15,524,488** | **361,995** | **2.4** | **15,346,356** | **0** | **15,346,356** |
| Cronfeydd Refeniw wrth Gefn | 209,407 | 0 | 209,407 | 164,491 | -44,916 | -21.4 | 220,025 | 0 | 220,025 |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn | 869 | 0 | 869 | 80,160 | 79,291 | 9,124.4 | 42,358 | 0 | 42,358 |
| Comisiwn y Cynulliad | 49,950 | 0 | 49,950 | 49,950 | 0 | 0.0 | 50,598 | 0 | 50,598 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 5,244 | 0 | 5,244 | 5,244 | 0 | 0.0 | 5,020 | 0 | 5,020 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3,942 | 0 | 3,942 | 3,942 | 0 | 0.0 | 4,204 | 0 | 4,204 |
| Taliadau uniongyrchol | 645 | 0 | 645 | 645 | 0 | 0.0 | 645 | 0 | 645 |
| **Cyfanswm TME Cymru** | **15,432,550** | **0** | **15,432,550** | **15,828,920** | **396,370** | **2.6** | **15,669,206** | **0** | **15,669,206** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

## *2.2. Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)*

Mae **tabl 2** yn rhoi trosolwg ar y newidiadau yng nghyfanswm y dyraniadau ar gyfer y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)[13] (refeniw a chyfalaf).

Mae **ffigur 1** yn dangos y newidiadau yng nghyfanswm y DEL a ddyrennir i bob MEG o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan, tra bo **ffigur 2** yn dangos canran y DEL ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

O'u cymharu â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan:

- Mae cynnydd o 2.4 y cant, neu £356.8 miliwn, yn y terfyn gwariant adrannol (DEL) yn gyffredinol. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU.
- Mae cynnydd o 2.2 y cant, neu £322.4 miliwn, yn y DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru. Dyrannwyd hyn o'r cronfeydd wrth gefn.
- Mae'r cynnydd mwyaf yng nghyfanswm y DEL, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Llywodraeth Leol, sef cynnydd o £302.1 miliwn, neu 6.8 y cant.
- Mae'r gostyngiad mwyaf yng nghyfanswm y DEL, ar ffurf arian parod, i'w weld yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sef gostyngiad o £23.4 miliwn, neu 0.4 y cant.
- Mae'r gostyngiad canrannol mwyaf yng nghyfanswm y DEL i'w weld yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sef gostyngiad o 0.9 y cant, neu £3.1 miliwn.

---


[13] **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** - fe'i pennir fel arfer dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses Llywodraeth y DU o adolygu gwariant. Dyma derfyn cyllideb aml-flwydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo (y gyllideb wedi'i chlustnodi i Lywodraeth Cymru, neu'r grant bloc) ac mae'n rhoi disgresiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario. Caiff newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer y gwariant hwn eu pennu ar sail fformiwla Barnett.

## Tabl 2: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan | Cylideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i hailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6,335,296 | -129,678 | 6,205,618 | 6,182,203 | -23,415 | -0.4 | 6,339,090 | -131,678 | 6,207,412 |
| Llywodraeth Leol | 5,151,836 | -716,073 | 4,435,763 | 4,737,828 | 302,065 | 6.8 | 5,204,677 | -742,514 | 4,462,163 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 199,313 | 199,313 | 212,006 | 12,693 | 6.4 | 0 | 199,958 | 199,958 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 295,344 | 556,548 | 851,892 | 852,609 | 717 | 0.1 | 305,253 | 585,889 | 891,142 |
| Addysg a Sgiliau | 1,870,933 | -1,500 | 1,869,433 | 1,860,792 | -8,641 | -0.5 | 1,855,468 | -145 | 1,855,323 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 326,766 | 71,432 | 398,198 | 413,902 | 15,704 | 3.9 | 328,123 | 68,532 | 396,655 |
| Tai ac Adfywio | 556,486 | -115,428 | 441,058 | 465,930 | 24,872 | 5.6 | 558,737 | -115,474 | 443,263 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 0 | 138,209 | 138,209 | 139,722 | 1,513 | 1.1 | 0 | 138,255 | 138,255 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 348,609 | -2,823 | 345,786 | 342,672 | -3,114 | -0.9 | 351,105 | -2,823 | 348,282 |
| **Cyfanswm Dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru** | **14,885,270** | **0** | **14,885,270** | **15,207,664** | **322,394** | **2.2** | **14,942,453** | **0** | **14,942,453** |
| Cronfeydd Refeniw wrth Gefn | 209,407 | 0 | 209,407 | 164,491 | -44,916 | -21.4 | 220,025 | 0 | 220,025 |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn | 869 | 0 | 869 | 80,160 | 79,291 | 9,124.4 | 41,858 | 0 | 41,858 |
| Comisiwn y Cynulliad | 49,450 | 0 | 49,450 | 49,450 | 0 | 0.0 | 50,598 | 0 | 50,598 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 5,244 | 0 | 5,244 | 5,244 | 0 | 0.0 | 5,244 | 0 | 5,244 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,144 | 0 | 4,144 | 4,144 | 0 | 0.0 | 4,204 | 0 | 4,204 |
| Taliadau uniongyrchol | 645 | 0 | 645 | 645 | 0 | 0.0 | 645 | 0 | 645 |
| **Cyfanswm DEL Cymru** | **15,155,029** | **0** | **15,155,029** | **15,511,798** | **356,769** | **2.4** | **15,265,027** | **0** | **15,265,027** |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

### Ffigur 1: Newid canrannol yng nghyfanswm y DEL




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.

### Ffigur 2: Canran y DEL ychwanegol a ddyrennir i bob MEG, o'i chymharu â Chyllideb Derfynol 2012-13




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-14

### *2.2.1. DEL Refeniw*

Mae **tabl 3** yn dangos y newidiadau mewn dyraniadau DEL refeniw. Mae **ffigur 3** yn dangos y newidiadau yn y DEL refeniw a ddyrennir i bob MEG o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan, tra bo **ffigur 4** yn dangos canran y DEL refeniw ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon. O gymharu hyn â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, gwelir bod:


- Cynnydd o 1.4 y cant, neu £201.3 miliwn, yn y DEL refeniw ym mloc Cymru. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU.
- Cynnydd o 1.8 y cant, neu £246.2 miliwn, yn y DEL refeniw a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r trosglwyddiadau gan Lywodraeth y DU, cafwyd dyraniadau net gwerth £44.9 miliwn o gronfeydd refeniw wrth gefn.
- Mae'r cynnydd mwyaf yn y DEL refeniw, ar ffurf arian parod, i'w weld yn MEG Llywodraeth Leol, sef cynnydd o £302.1 miliwn, neu 6.8 y cant.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL refeniw i'w weld yn MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, sef cynnydd o 7.3 y cant, neu £12.7 miliwn.
- Mae'r gostyngiad mwyaf yn y DEL refeniw, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Addysg a Sgiliau, sef £33.6 miliwn, neu 2.0 y cant.

**Tabl 3: Newidiadau yn y DEL refeniw**

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan | Cylideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i hailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6,091,746 | -117,678 | 5,974,068 | 5,940,553 | -33,515 | -0.6 | 6,095,540 | -127,678 | 5,967,862 |
| Llywodraeth Leol | 4,899,317 | -486,474 | 4,412,843 | 4,714,908 | 302,065 | 6.8 | 4,926,458 | -487,215 | 4,439,243 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 174,863 | 174,863 | 187,556 | 12,693 | 7.3 | 0 | 183,508 | 183,508 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 184,274 | 352,322 | 536,596 | 535,288 | -1,308 | -0.2 | 186,883 | 353,263 | 540,146 |
| Addysg a Sgiliau | 1,693,799 | -1,500 | 1,692,299 | 1,658,658 | -33,641 | -2.0 | 1,701,634 | -145 | 1,701,489 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 264,455 | 59,859 | 324,314 | 327,278 | 2,964 | 0.9 | 265,856 | 59,659 | 325,515 |
| Tai ac Adfywio | 281,422 | -105,534 | 175,888 | 175,905 | 17 | 0.0 | 281,473 | -105,580 | 175,893 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 0 | 125,465 | 125,465 | 125,498 | 33 | 0.0 | 0 | 125,511 | 125,511 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 323,296 | -1,323 | 321,973 | 318,859 | -3,114 | -1.0 | 325,792 | -1,323 | 324,469 |
| **Cyfanswm Dyraniadau DEL Refeniw Llywodraeth Cymru** | **13,738,309** | **0** | **13,738,309** | **13,984,503** | **246,194** | **1.8** | **13,783,636** | **0** | **13,783,636** |
| Cronfeydd Refeniw wrth Gefn | 209,407 | 0 | 209,407 | 164,491 | -44,916 | -21.4 | 220,025 | 0 | 220,025 |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 48,700 | 0 | 48,700 | 48,700 | 0 | 0.0 | 49,598 | 0 | 49,598 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 5,224 | 0 | 5,224 | 5,224 | 0 | 0.0 | 5,244 | 0 | 5,244 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,131 | 0 | 4,131 | 4,131 | 0 | 0.0 | 4,191 | 0 | 4,191 |
| Taliadau uniongyrchol | 645 | 0 | 645 | 645 | 0 | 0.0 | 645 | 0 | 645 |
| **Cyfanswm DEL Refeniw Cymru** | **14,006,416** | **0** | **14,006,416** | **14,207,694** | **201,278** | **1.4** | **14,063,339** | **0** | **14,063,339** |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil drwy ddefnyddio cyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

## Ffigur 3: Newidiadau canrannol yn y DEL refeniw




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.

## Ffigur 4: Canran y DEL refeniw ychwanegol a ddyrennir yn y gyllideb atodol hon




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.

### *2.2.2. DEL cyfalaf*

Mae **Tabl 4** yn dangos y newidiadau mewn dyraniadau DEL cyfalaf. Mae **ffigur 5** yn dangos y newidiadau yng nghyfanswm y DEL cyfalaf a ddyrennir i bob MEG o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan, tra bo **ffigur 6** yn dangos canran y DEL cyfalaf ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon. O gymharu hyn â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, gwelir bod:


- Cynnydd o 13.5 y cant, neu £155.5 miliwn, yn y DEL cyfalaf ym mloc Cymru. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU.
- Cynnydd o 6.6. y cant, neu £76.2 miliwn, yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru. Dyrannwyd hyn o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn.
- Mae'r cynnydd mwyaf yn y DEL cyfalaf, ar ffurf arian parod, i'w weld yn MEG Addysg a Sgiliau, sef cynnydd o £25 miliwn, neu 14.1 y cant.
- Mae'r cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL cyfalaf i'w weld yn MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd, sef cynnydd o 17.2 y cant, neu £12.7 miliwn.
- Nid oes gostyngiadau yn y DEL cyfalaf.

**Tabl 4: Newidiadau yn y DEL cyfalaf**

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan | Cylideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i hailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 243,550 | -12,000 | 231,550 | 241,650 | 10,100 | 4.4 | 243,550 | -4,000 | 239,550 |
| Llywodraeth Leol | 252,519 | -229,599 | 22,920 | 22,920 | 0 | 0.0 | 278,219 | -255,299 | 22,920 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 24,450 | 24,450 | 24,450 | 0 | 0.0 | 0 | 16,450 | 16,450 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 111,070 | 204,226 | 315,296 | 317,321 | 2,025 | 0.6 | 118,370 | 232,626 | 350,996 |
| Addysg a Sgiliau | 177,134 | 0 | 177,134 | 202,134 | 25,000 | 14.1 | 153,834 | 0 | 153,834 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 62,311 | 11,573 | 73,884 | 86,624 | 12,740 | 17.2 | 62,267 | 8,873 | 71,140 |
| Tai ac Adfywio | 275,064 | -9,894 | 265,170 | 290,025 | 24,855 | 9.4 | 277,264 | -9,894 | 267,370 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 0 | 12,744 | 12,744 | 14,224 | 1,480 | 11.6 | 0 | 12,744 | 12,744 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 25,313 | -1,500 | 23,813 | 23,813 | 0 | 0.0 | 25,313 | -1,500 | 23,813 |
| **Cyfanswm Dyraniadau DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru** | **1,146,961** | **0** | **1,146,961** | **1,223,161** | **76,200** | **6.6** | **1,158,817** | **0** | **1,158,817** |
| Cronfeydd Refeniw wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn | 869 | 0 | 869 | 80,160 | 79,291 | 9,124.4 | 41,858 | 0 | 41,858 |
| Comisiwn y Cynulliad | 750 | 0 | 750 | 750 | 0 | 0.0 | 1,000 | 0 | 1,000 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 20 | 0 | 20 | 20 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 13 | 0 | 13 | 13 | 0 | 0.0 | 13 | 0 | 13 |
| Taliadau uniongyrchol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm DEL Cyfalaf Cymru** | **1,148,613** | **0** | **1,148,613** | **1,304,104** | **155,491** | **13.5** | **1,201,688** | **0** | **1,201,688** |


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

### Ffigur 5: Newidiadau canrannol yn y DEL cyfalaf




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.

### Ffigur 6: Canran y DEL cyfalaf ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon




Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.

## 2.3. Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)

Mae **tabl 5** yn rhoi trosolwg ar y newidiadau yn y dyraniadau ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol (AME)[14]. O gymharu hyn â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, gwelir bod:

- Cynnydd o 14.3 y cant, neu £39.6 miliwn, yn yr AME. Mae hyn i'w briodoli i ragolygon diwygiedig yn bennaf.
- Yn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y gwelir yr unig gynnydd mewn gwariant a reolir yn flynyddol, sef £42.3 miliwn, neu 44.7 y cant. Mae hyn i'w briodoli i ragolygon diwygiedig yn ymwneud ag adnoddau ac amhariadau yn y GIG.
- Mae'r gostyngiad mwyaf yn yr AME, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn MEG Llywodraeth Leol, sef £2.6 miliwn, neu 10.7 y cant. Mae hyn yn cyfateb i'r rhagolygon diweddaraf o ran pensiynau'r Gwasanaeth Tân.

[14] **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** – mae'r AME yn anoddach i'w ragweld na'r gwariant mewn terfynau gwariant adrannol (DEL). Mae'n cynnwys gwariant a bennir yn ôl y galw'n gyffredinol, ac felly ni fyddai'n rhesymol i'r ddarpariaeth fod yn destun terfynau dros nifer o flynyddoedd (er enghraifft, benthyciadau i fyfyrwyr). Caiff hwn ei adolygu a'i bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y mae modd dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly ni all Llywodraeth Cymru benderfynu sut y caiff ei ddyrannu. Mae modd cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl yr angen, ond rhaid dychwelyd unrhyw arian nas gwariwyd.

**Tabl 5: Newidiadau mewn gwariant a reolir yn flynyddol (AME)**

| Prif Grŵp Gwariant (MEG) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan | Cylideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i hailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 94,574 | 0 | 94,574 | 136,890 | 42,316 | 44.7 | 213,428 | 0 | 213,428 |
| Llywodraeth Leol | 52,406 | -27,918 | 24,488 | 21,856 | -2,632 | -10.7 | 53,434 | -28,946 | 24,488 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 20,000 | 27,918 | 47,918 | 47,918 | 0 | 0.0 | 20,000 | 28,946 | 48,946 |
| Addysg a Sgiliau | 176,869 | 0 | 176,869 | 176,869 | 0 | 0.0 | 183,149 | 0 | 183,149 |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Tai ac Adfywio | -68,260 | -2,740 | -71,000 | -71,000 | 0 | 0.0 | -68,260 | -2,740 | -71,000 |
| Diwylliant a Chwaraeon | 0 | 2,740 | 2,740 | 2,740 | 0 | 0.0 | 0 | 2,740 | 2,740 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 1,634 | 0 | 1,634 | 1,551 | -83 | -5.1 | 2,152 | 0 | 2,152 |
| **Cyfanswm Dyraniadau AME Llywodraeth Cymru** | **277,223** | **0** | **277,223** | **316,824** | **39,601** | **14.3** | **403,903** | **0** | **403,903** |
| Cronfeydd Refeniw wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Comisiwn y Cynulliad | 500 | 0 | 500 | 500 | 0 | 0.0 | 500 | 0 | 500 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | -202 | 0 | -202 | -202 | 0 | 0.0 | -224 | 0 | -224 |
| Taliadau uniongyrchol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm AME Cyfalaf Cymru** | **277,521** | **0** | **277,521** | **317,122** | **39,601** | **14.3** | **404,179** | **0** | **404,179** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 3. Newidiadau i’r llinellau sylfaen a symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn

Gwnaed nifer o addasiadau i linellau sylfaen DEL refeniw a chyfalaf yn y gyllideb atodol hon, yn bennaf o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU. Er mwyn dangos effaith y trosglwyddiadau hyn, dangosir bod y rhain yn cael eu gwneud drwy gyfrwng y cronfeydd wrth gefn. Mae’r holl symudiadau mewn refeniw cyllidol[15], refeniw anghyllidol[16] a chronfeydd cyfalaf wrth gefn i’w gweld yn **nhabl 6**.

[15] **Refeniw cyllidol DEL**, neu refeniw sydd bron yn arian parod – cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae hwn yn fesur croniadol ar gyfer trosglwyddiadau y byddai disgwyl iddynt droi yn llif arian yn fuan. Mae’n ysytried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a’r llifau arian parod ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, bydd y ddyletswydd i dalu am nwy/trydan yn codi wrth i’r tanwydd gael ei ddefnyddio, er y gwneir y taliad gwirioneddol fel ôl-daliad bob chwarter, o bosibl. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys tâl, caffael, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. Nid yw’n cynnwys costau anghyllidol (heb fod yn arian parod).

[16] **Refeniw anghyllidol DEL**, neu nad yw’n arian parod - Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae’n fesur croniadol a ddefnyddir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cyswllt uniongyrchol â’r llifau arian parod yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae enghreifftiau o gostau nad ydynt yn arian parod yn cynnwys dibrisiant, darpariaethau a chost cyfalaf. Bydd taliadau o’r fath naill ai byth yn arwain at gost arian parod wirioneddol (e.e. cost cyfalaf), neu dim ond mewn blynyddoedd i ddod y byddant yn arwain at daliadau arian parod (e.e. darpariaethau). Ni ellir defnyddio refeniw anghyllidol i ariannu gwariant cyllidol (neu sydd bron yn arian parod).

## Tabl 6: Symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn

| Cronfa Refeniw wrth Gefn | Cyllidol £000 | Anghyllidol £000 | Cronfa Gyfalaf wrth Gefn | £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfa wrth Gefn yng Nghyllideb Derfynol 2013-14** | **138,630** | **70,777** | **Cronfa wrth Gefn yng Nghyllideb Derfynol 2013-14** | **869** |
| **Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU** | | | **Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU** | |
| Cyfraniadau at Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân1 | 0 | | Symiau canlyniadol AS2012 | 86,976 |
| Symiau canlyniadol AS2012 | -6,389 | | Symiau canlyniadol Cyllideb 2013 | 432 |
| Symiau canlyniadol Cyllideb 2013 | -24,855 | | Symiau canlyniadol AS2012 (trafodion ariannol) | 5,299 |
| Ad-dalu cymorth grant ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru | -1,232 | | Symiau canlyniadol Cyllideb 2013 (trafodion ariannol) | 62,784 |
| Trosglwyddiad i'r Adran Iechyd yng nghyswllt y Sefydliad Cenedlaethol dros Safonau a Rheolaeth Biolegol | -609 | | | |
| Datganoli'r dreth gyngor | 222,000 | | | |
| Diddymu'r Gronfa Gymdeithasol Ddewisol | 12,363 | | | |
| **Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn** | | | **Dyraniadau o Gronfeydd wrth Gefn** | |
| Llywodraeth Leol: Cymorth i Dalu'r Dreth Gyngor | -19,000 | | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Cronfa Technolegau Iechyd | -10,000 |
| Llywodraeth Leol: Datganoli'r dreth gyngor | -222,000 | | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Rheilffordd Glynebwy | -1,200 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi: Diddymu'r Gronfa Gymdeithasol Ddewisol | -12,363 | | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Addysg a Sgiliau: Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif | -25,000 |
| | | | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynlluniau llifogydd Gogledd Cymru | -10,000 |
| | | | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Tai ac Adfywio: Y Grant Tai Cymdeithasol | -20,000 |
| | | | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: Tai ac Adfywio: Troi Tai'n Gartrefi | -10,000 |
| **Dyraniadau i Gronfeydd wrth Gefn** | | | **Dyraniadau i Gronfeydd wrth Gefn** | |
| Addysg a Sgiliau: Adnodd Cronfa Bontio ar gyfer Adapt | 5,000 | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: trosglwyddiad i'r Adran Iechyd yng nghyswllt y Sefyliad Cenedlaethol dros Safonau a Rheolaeth Biolegol | 609 | | | |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Ad-dalu cymorth grant ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru | 1,232 | | | |
| Llywodraeth Leol: Cyfraniadau at Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân1 | 328 | | | |
| **Cronfa wrth Gefn sy'n weddill** | **93,714** | **70,777** | **Cronfa wrth Gefn sy'n weddill** | **80,160** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-14

1. Pan gyhoeddwyd Cyllideb Derfynol 2013-14, cafodd cronfeydd refeniw wrth gefn eu hailddatgan i adlewyrchu gostyngiad o £328,00 yn y llinell sylfaen refeniw. Roedd hyn i'w briodoli i gynnydd cyfatebol yng nghyllideb y gwariant a reolir yn flynyddol yn ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân. Nodwyd ar y pryd y byddai hyn yn cael ei ad-dalu i'r gronfa refeniw wrth gefn o'r portffolio Llywodraeth Leol. Caiff hyn ei wneud yn y gyllideb atodol hon. Felly, caiff y swm ei drosglwyddo o'r MEG Llywodraeth Leol i'r gronfa refeniw wrth gefn, ond nid oes gostyngiad cyfatebol yn y gronfa wrth gefn, a hynny oherwydd bod y llinell sylfaen wedi'i haddasu eisoes.

Mae hyn yn dangos mai cyfanswm y symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn yn y gyllideb hon yw:

- Gostyngiad o £44.9 miliwn mewn cronfeydd refeniw wrth gefn, a hynny oherwydd cynnydd o £210.3 miliwn yn dilyn trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU, a gaiff ei wrthbwyso gan ddyraniadau gwerth £246.2 miliwn o gronfeydd wrth gefn.
- Cynnydd o £79.2 miliwn mewn cronfeydd cyfalaf wrth gefn, a hynny oherwydd cynnydd o £155.5 miliwn, a gaiff ei wrthbwyso gan ddyraniadau gwerth £76.2 miliwn o gronfeydd wrth gefn.

Dyma'r cyfanswm sydd ar ôl yn y cronfeydd wrth gefn ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2013-14, yn dilyn y newidiadau a gynigir yn y gyllideb atodol hon:

- £164.5 miliwn yn y gronfa refeniw wrth gefn - £93.7 miliwn cyllidol a £70.8 miliwn anghyllidol; a
- £80.2 miliwn yn y gronfa gyfalaf wrth gefn.

### *3.1. Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU*

Fel y gwelir yn **nhabl 6**, bu nifer o drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys:

- £12.4 miliwn o DEL refeniw a gafwyd gan Lywodraeth y DU ar ôl diddymu'r Gronfa Gymdeithasol Ddewisol. Cafodd ei ddyrannu i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.
- £222 miliwn o DEL refeniw a gafwyd gan Lywodraeth y DU ar ôl datganoli'r dreth gyngor. Cafodd ei ddyrannu i'r portffolio Llywodraeth Leol.
- £0.3 miliwn o DEL refeniw o'r portffolio Llywodraeth Leol i Lywodraeth y DU i ariannu'r cynnydd mewn cyfraniadau i gynlluniau pensiwn Diffoddwyr Tân.[17]
- £1.2 miliwn o DEL refeniw o'r portffolio Cyfoeth Naturiol a Bwyd i Drysorlys EM i ad-dalu'r cymorth grant a gafodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt.
- £0.6 miliwn o DEL refeniw o'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Adran Iechyd y DU i helpu i gyfrannu at ariannu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Safonau a Rheolaeth Biolegol.
- Bu symiau canlyniadol ar ôl Datganiad yr Hydref a gafwyd gan Lywodraeth y DU yn 2012 ac ar ôl Cyllideb 2013. O ganlyniad, bu gostyngiad o £31.2 miliwn mewn DEL refeniw, a chynnydd o £155.5 miliwn mewn DEL cyfalaf (mae £68.1 miliwn ohono wedi'i neilltuo ar gyfer trafodion ariannol[18]).

Gan hynny, cafwyd cynnydd cyffredinol o £356.8 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU (£201.3 miliwn o DEL refeniw a £155.5 miliwn o DEL cyfalaf). Ynghyd â'r cynnydd o £39.6 miliwn yn yr AME yn dilyn rhagolygon diwygiedig, mae hyn yn rhoi cynnydd o £396.4 miliwn mewn TME i floc Cymru.

---

[17] Pan gyhoeddwyd Cyllideb Derfynol 2013-14, cafodd cronfeydd refeniw wrth gefn eu hailddatgan i adlewyrchu gostyngiad o £328,00 yn y llinell sylfaen refeniw. Roedd hyn i'w briodoli i gynnydd cyfatebol yng nghyllideb y gwariant a reolir yn flynyddol yn ymwneud â phensiynau diffoddwyr tân. Nodwyd ar y pryd y byddai hyn yn cael ei ad-dalu i'r gronfa refeniw wrth gefn o'r portffolio Llywodraeth Leol. Caiff hyn ei wneud yn y gyllideb atodol hon. Felly, caiff y swm ei drosglwyddo o'r MEG Llywodraeth Leol i'r gronfa refeniw wrth gefn, ond nid oes gostyngiad cyfatebol yn y gronfa wrth gefn, a hynny oherwydd bod y llinell sylfaen wedi'i haddasu eisoes.

[18] Yn ei llythyr at y Pwyllgor Cyllid dyddiedig 25 Mehefin 2013, mae'r Gweinidog Cyllid yn rhoi rhagor o fanylion am y DEL cyfalaf hwn a neilltuir ar gyfer trafodion ariannol. Nododd mai dim ond ar gyfer benthyciadau neu fuddsoddiadau ecwiti y gellir denfyddio'r arian hwn, ac y bydd yn rhaid ad-dalu cyfran ohono i Drysorlys EM. Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid gan y Gweinidog Cyllid (Jane Hutt, AC)**, 25 Mehefin 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

## *3.2. Dyraniadau i'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*

Fel y gwelir yn **nhabl 6**, dyrannwyd £76.2 miliwn at ei gilydd i brosiectau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru o'r gronfa gyfalaf wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Gwnaed y dyraniadau hyn yn unol â datganiad y Gweinidog ar ddyraniadau cyfalaf yn gynharach eleni.[19] Yn ogystal â'r prosiectau a nodwyd yn y datganiad hwn, mae dyraniad o £10 miliwn hefyd yn ymwneud â'r Gronfa Technolegau Iechyd. Mae rhagor o fanylion am ddyraniadau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i'r portffolios perthnasol i'w gweld yn adrannau 5 i 13 o'r papur hwn.

## *3.3. Y system cyfnewid cyllidebau*

Pan gyhoeddwyd ail Gyllideb Atodol 2012-13, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu dwyn y canlynol ymlaen i 2013-14:

- £59 miliwn o DEL refeniw (dyrannwyd £40 miliwn i Brentisiaethau yng Nghyllideb Derfynol 2013-14, a dyrannwyd £19 miliwn drwy gyfrwng y gyllideb atodol hon ar gyfer y dreth gyngor); a
- £50 miliwn o DEL cyfalaf ar gyfer y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Yn ôl y gyllideb atodol bresennol, mae Llywodraeth Cymru, ers hynny, wedi prynu cyfranddaliad Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf am £51.8 miliwn, gan ddefnyddio'r £50 miliwn a oedd yn weddill yn y cronfeydd cyfalaf wrth gefn yn 2012-13. Rhoddodd Gweinidogion Cymru awdurdod i ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol hyn yn 2012-13 o dan Adran 128 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymdrin â digwyddiadau annisgwyl. Gosodwyd adroddiad yn nodi'r manylion gerbron y Cynulliad ar 3 Ebrill.[20]

Mae hyn yn golygu nad yw'r **£50 miliwn o gyfalaf y bwriadwyd ei ddwyn ymlaen i 2013-14 ar gyfer y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gael bellach**. Mae'r nodyn esboniadol sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn nodi:

> Caiff manylion union symiau'r DEL Adnoddau Cyllidol a'r DEL Cyfalaf sydd i'w dwyn ymlaen o 2012-13 eu cadarnhau ar ôl cwblhau Cyfrifon Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 ac wedi iddynt gael ei hadlewyrchu yn yr Adroddiad Alldro Terfynol. Caiff addasiadau i'r llinell sylfaen i adlewyrchu'r swm terfynol a ddygir ymlaen eu gwneud yn nes ymlaen yn y flwyddyn drwy broses Amcangyfrif Atodol y Deyrnas Unedig.[21]

---

[19] Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid), ***Dyraniadau Cyfalaf***, Datganiad Llafar y Cabinet, 7 Mai 2013. Fel y gwelir yn y Datganiad, dylid nodi mai dim ond £1.2 miliwn o'r £11.5 miliwn a ddyfarnwyd i Orsaf Rheilffordd Glynebwy a ddyrannwyd yn 2013-14, a gwnaed hynny drwy gyfrwng y gyllideb atodol hon. Caiff y £10.3 miliwn sy'n weddill ei ddyrannu eto. [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***GEN-LD9288 - Adroddiad o dan adran 128(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, Prynu Maes Awyr Caerdydd***, 3 Ebrill 2013 [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

[21] Llywodraeth Cymru, ***Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14 Nodyn Esboniadol***, 25 Mehefin 2013. [fel ar 2 Gorffennaf 2013]

## 4. Trosglwyddiadau rhwng y portffolios

Mae’r gyllideb atodol hon yn gwneud nifer o drosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant (yn ogystal â'r rhai sy’n ymwneud â chysoni'r gyllideb â’r strwythurau portffolio newydd), fel y nodir yn **nhabl 7**. Er bod y rhain yn effeithio ar gyllidebau’r prif grwpiau gwariant unigol, nid yw’r trosglwyddiadau hyn yn cael unrhyw effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn gyffredinol.

## Tabl 7: Trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant

| Trosglwyddiad o: | £0000edd | Trosglwyddiad i: | £0000edd | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU REFENIW** | | | | |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | **Newid net: -32,906** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion a Phobl Hŷn | -32,906 | Llywodraeth Leol: Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 32,906 | Cyllid ar gyfer anableddau dysgu yn cael ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw |
| **Llywodraeth Leol** | | | | **Newid net: 61,393** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Oedolion a Phobl Hŷn | -32,906 | Llywodraeth Leol: Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 32,906 | Cyllid ar gyfer anableddau dysgu yn cael ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw |
| Addysg a Sgiliau: Lles plant a phobl ifanc | -24,440 | Llywodraeth Leol: Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 24,440 | Lleoliadau anghenion addysgol arbennig y tu allan i'r sir ac ysgolion arbennig ôl-16 |
| Addysg a Sgiliau: Addysg ôl-16 | -4,201 | Llywodraeth Leol: Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 4,201 | Darpariaeth anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion prif-ffrwd |
| Llywodraeth Leol: Adeiladu Democratiaeth Leol | -93 | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Costau Staff | 93 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| Llywodraeth Leol: Adeiladu Democratiaeth Leol | -61 | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Tribiwnlysoedd | 61 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | | | | **Newid net: 330** |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | -30 | Cymunedau a Threchu Tlodi: Trechu Tlodi | 30 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Gwariant Gweinyddol Cyffredinol | -300 | Cymunedau a Threchu Tlodi: Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb | 300 | Cydlyniant Cymunedol. |
| **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | | | | **Newid net: -1,308** |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Sectorau | -1,258 | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Datblygu Rhyngwladol | 1,258 | Rhwydwaith trafnidiaeth integredig de-ddwyrain Cymru a'r strategaeth ddinas-ranbarthau. |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Sectorau | -17 | Tai ac Adfywio: Adfywio | 17 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Sectorau | -33 | Diwylliant a Chwaraeon: Arweinyddiaeth strategol ar gyfer gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 33 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| **Addysg a Sgiliau** | | | | **Newid net: -28,641** |
| Addysg a Sgiliau: Lles Plant a Phobl Ifanc | -24,440 | Llywodraeth Leol: Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 24,440 | Lleoliadau anghenion addysgol arbennig y tu allan i'r sir ac ysgolion arbennig ôl-16 |
| Addysg a Sgiliau: Addysg ôl-16 | -4,201 | Llywodraeth Leol: Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 4,201 | Darpariaeth anghenion addysgol arbennig ôl-16 mewn ysgolion prif-ffrwd |
| **Cyfoeth Naturiol a Bwyd** | | | | **Newid net: 4,196** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Buddsoddi i Arbed | -3,750 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Noddi a rheoli cyrff gweithredu | 3,750 | Ad-drefnu'r gweithlu yn Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Buddsoddi i Arbed | -476 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Noddi a rheoli cyrff gweithredu | 476 | Integreiddio systemau a chymorth o ran costau pontio Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | -30 | Cymunedau a Threchu Tlodi: Trechu Tlodi | 30 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| **Tai ac Adfywio** | | | | **Newid net: 17** |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Sectorau | -17 | Tai ac Adfywio: Adfywio | 17 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| **Diwylliant a Chwaraeon** | | | | **Newid net: 33** |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Sectorau | -33 | Diwylliant a Chwaraeon: Arweinyddiaeth strategol ar gyfer gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 33 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | | | | **Newid net: -3,114** |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Gwariant Gweinyddol Cyffredinol | -300 | Cymunedau a Threchu Tlodi: Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb | 300 | Cydlyniant Cymunedol. |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Sectorau | -1,258 | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Datblygu Rhyngwladol | 1,258 | Costau rhaglenni swyddfeydd rhyngwladol. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Buddsoddi i Arbed | -3,750 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Noddi a rheoli cyrff gweithredu | 3,750 | Ad-drefnu'r gweithlu yn Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Buddsoddi i Arbed | -476 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Noddi a rheoli cyrff gweithredu | 476 | Integreiddio systemau a chymorth o ran costau pontio Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Llywodraeth Leol: Adeiladu Democratiaeth Leol | -93 | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Costau Staff | 93 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| Llywodraeth Leol: Adeiladu Democratiaeth Leol | -61 | Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Tribiwnlysoedd | 61 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |

## Tabl 7: Trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant (parhad)

| Trosglwyddiad o: | £000oedd | Trosglwyddiad i: | £000oedd | Disgrifiad |
|---|---|---|---|---|
| **TROSGLWYDDIADAU CYFALAF** | | | | |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | **Newid net: 100** |
| Tai ac Adfywio: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai | -100 | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflenwi'r GIG | 100 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | | | | **Newid net: 825** |
| Tai ac Adfywio: Adfywio | -825 | Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd | 825 | Gorsaf Aberystwyth. |
| **Cyfoeth Naturiol a Bwyd** | | | | **Newid net: 2,740** |
| Tai ac Adfywio: Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel | -270 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | 270 | Cyfraniad at arian cyfatebol ar gyfer Arbed Cyfnod 2. |
| Tai ac Adfywio: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai | -1,100 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | 1,100 | Cyfraniad at arian cyfatebol ar gyfer Arbed Cyfnod 2. |
| Tai ac Adfywio: Adfywio | -1,370 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | 1,370 | Cyfraniad at arian cyfatebol ar gyfer Arbed Cyfnod 2. |
| **Tai ac Adfywio** | | | | **Newid net: -5,145** |
| Tai ac Adfywio: Adfywio | -825 | Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd | 825 | Gorsaf Aberystwyth. |
| Tai ac Adfywio: Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel | -270 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | 270 | Cyfraniad at arian cyfatebol ar gyfer Arbed Cyfnod 2. |
| Tai ac Adfywio: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai | -1,100 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | 1,100 | Cyfraniad at arian cyfatebol ar gyfer Arbed Cyfnod 2. |
| Tai ac Adfywio: Adfywio | -1,370 | Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Datblygu a gweithredu polisi, dulliau o gyfathrebu, deddfwriaeth a rheoliadau ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thlodi tanwydd. | 1,370 | Cyfraniad at arian cyfatebol ar gyfer Arbed Cyfnod 2. |
| Tai ac Adfywio: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai | -1,480 | Diwylliant a Chwaraeon: Mabwysiadu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd | 1,480 | Ailbroffilio cyllid ar gyfer ailddatblygu Amgueddfa Sain Ffagan. |
| Tai ac Adfywio: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai | -100 | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflenwi'r GIG | 100 | Ni chafodd ei nodi gan ei fod yn llai na £250,000. |
| **Diwylliant a Chwaraeon** | | | | **Newid net: 1,480** |
| Tai ac Adfywio: Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai | -1,480 | Diwylliant a Chwaraeon: Mabwysiadu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd | 1,480 | Ailbroffilio cyllid ar gyfer ailddatblygu Amgueddfa Sain Ffagan. Yng nghyswllt cyllid cyfalaf a drosglwyddwyd yn 2012-13. |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2013-14

## 5. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae **tabl 8** yn crynhoi'r newidiadau ar lefel y meysydd rhaglenni gwariant (SPA) yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bu rhai newidiadau strwythurol yn y MEG hwn oherwydd newidiadau yn y portffolio. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod elfennau o'r cyllid o fewn SPA Gwasanaethau Cymdeithasol (o gam gweithredu *Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd*) wedi'i drosglwyddo i MEG Cymunedau a Threchu Tlodi, wedi i swyddogaethau'n ymwneud â gwasanaethau plant gael eu trosglwyddo. Ailddosbarthwyd rhywfaint o  gyllid o fewn SPA Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd.

O'u cymharu â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, mae'r newidiadau arfaethedig yn y gyllideb atodol yn golygu bod:

- Cynnydd o £18.9 miliwn, neu 0.3 y cant, yn y TME.
- Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o £23.4 miliwn (0.4 y cant) yng nghyfanswm y DEL a chynnydd o £42.3 miliwn (44.7 y cant) yn yr AME.
- Mae'r newid yng nghyfanswm y DEL yn cynnwys gostyngiad o £33.5 miliwn (0.6 y cant) yn y DEL refeniw a chynnydd o £10.1 miliwn (4.4 y cant) yn y DEL cyfalaf.

Mae'r gostyngiad o £33.5 miliwn yn y DEL refeniw yn cynnwys:

- Gostyngiad o £0.6 miliwn o SPA Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau (cam gweithredu *Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus*) ar ôl trosglwyddo arian i Adran Iechyd y DU, yn ymwneud ag ariannu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Safonau a Rheolaeth Biolegol (fel y gwelir yn **nhabl 6**).
- Gostyngiad o £32.9 miliwn yn SPA Gwasanaethau Cymdeithasol (cam gweithredu *Oedolion a Phobl Hŷn*) ar ôl trosglwyddo arian i'r portffolio Llywodraeth Leol. Mae hyn yn ymwneud â'r ffaith bod y Grant Adsefydlu Anabledd Dysgu yn cael ei gynnig fel rhan o'r grant cymorth refeniw (fel y gwelir yn **nhabl 7**.

Mae'r cynnydd o £10.1 miliwn yn y DEL cyfalaf yn cynnwys:

- Dyraniad o £10 miliwn o'r gronfa cyfalaf wrth gefn (fel y gwelir yn **nhabl 6**) i SPA/cam gweithredu Cyflenwi'r GIG. Arian ar gyfer y Gronfa Technolegau Iechyd yw hwn, i hybu'r broses o drawsnewid gwasanaethau drwy gyflwyno technolegau newydd.
- £0.1 miliwn a drosglwyddwyd i SPA/cam gweithredu Cyflenwi'r GIG. Mae hyn islaw'r trothwy o £250,000 ac felly nid yw'r manylion wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, fel y gwelir yn **nhabl 7**, ymddengys iddo gael ei drosglwyddo i MEG Tai ac Adfywio.

Nodir bod y cynnydd o £42.3 miliwn yn yr AME i'w briodoli i'r rhagolygon diwygiedig ynghylch adnoddau ac amhariadau yn y GIG.

**Tabl 8: Newidiadau yn nyraniadau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

| Maes rhaglenni gwariant (SPA) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i hailddatgan | Cyllideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 (wedi'i hailddatgan) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 5,494,916 | 0 | 5,494,916 | 5,494,916 | 0 | 0.0 | 5,489,435 | 0 | 5,489,435 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 228,904 | 0 | 228,904 | 228,904 | 0 | 0.0 | 228,179 | 0 | 228,179 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 158,001 | 0 | 158,001 | 157,392 | -609 | -0.4 | 158,001 | 0 | 158,001 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 199,763 | -117,678 | 82,085 | 49,179 | -32,906 | -40.1 | 209,763 | -127,678 | 82,085 |
| CAFCASS Cymru | 10,162 | 0 | 10,162 | 10,162 | 0 | 0.0 | 10,162 | 0 | 10,162 |
| **CYFANSWM Y REFENIW** | **6,091,746** | **-117,678** | **5,974,068** | **5,940,553** | **-33,515** | **-0.6** | **6,095,540** | **-127,678** | **5,967,862** |
| | | | | | | | | | |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | |
| Cyflenwi'r GIG | 217,275 | 0 | 217,275 | 227,375 | 10,100 | 4.6 | 225,275 | 0 | 225,275 |
| Cyllidebau Canolog Iechyd | 5,072 | 0 | 5,072 | 5,072 | 0 | 0.0 | 5,072 | 0 | 5,072 |
| Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau | 4,492 | 0 | 4,492 | 4,492 | 0 | 0.0 | 4,492 | 0 | 4,492 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 16,711 | -12,000 | 4,711 | 4,711 | 0 | 0.0 | 8,711 | -4,000 | 4,711 |
| **CYFANSWM Y CYFALAF** | **243,550** | **-12,000** | **231,550** | **241,650** | **10,100** | **4.4** | **243,550** | **-4,000** | **239,550** |
| | | | | | | | | | |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | |
| Amhariadau ac Adnoddau'r GIG | 94,574 | 0 | 94,574 | 136,890 | 42,316 | 44.7 | 213,428 | 0 | 213,428 |
| **CYFANSWM YR AME** | **94,574** | **0** | **94,574** | **136,890** | **42,316** | **44.7** | **213,428** | **0** | **213,428** |
| | | | | | | | | | |
| DEL Refeniw | 6,091,746 | -117,678 | 5,974,068 | 5,940,553 | -33,515 | -0.6 | 6,095,540 | -127,678 | 5,967,862 |
| DEL cyfalaf | 243,550 | -12,000 | 231,550 | 241,650 | 10,100 | 4.4 | 243,550 | -4,000 | 239,550 |
| **CYFANSWM Y DEL** | **6,335,296** | **-129,678** | **6,205,618** | **6,182,203** | **-23,415** | **-0.4** | **6,339,090** | **-131,678** | **6,207,412** |
| | | | | | | | | | |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 94,574 | 0 | 94,574 | 136,890 | 42,316 | 44.7 | 213,428 | 0 | 213,428 |
| | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **6,429,870** | **-129,678** | **6,300,192** | **6,319,093** | **18,901** | **0.3** | **6,552,518** | **-131,678** | **6,420,840** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 6. Llywodraeth leol

Mae **tabl 9** yn crynhoi'r newidiadau ym maes rhaglenni gwariant MEG Llywodraeth Leol.

Bu nifer o newidiadau strwythurol yn y MEG hwn yn dilyn newidiadau yn y portffolio. Trosglwyddwyd SPA Cefnogi Cymunedau a Phobl yn ei gyfanrwydd i bortffolio Cymunedau a Threchu Tlodi. Trosglwyddwyd yr holl gyllid yn ymwneud â thrafnidiaeth i bortffolio'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

O'u cymharu â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, mae'r newidiadau arfaethedig yn y gyllideb atodol yn golygu bod:

- Cynnydd o £299.4 miliwn, neu 6.7 y cant, yn y TME.
- Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £302.1 miliwn (6.8 y cant) yng nghyfanswm y DEL a gostyngiad o £2.6 miliwn (10.7 y cant) yn yr AME.
- Mae'r newid yng nghyfanswm y DEL i'w briodoli'n llwyr i gynnydd o £302.1 miliwn (6.8 y cant) yn y DEL refeniw. Nid oes newidiadau yn y DEL cyfalaf

Mae'r cynnydd o £302.1 miliwn yn y DEL refeniw'n cynnwys:

- Trosglwyddiadau gwerth £221.7 miliwn gyda Llywodraeth y DU, fel y gwelir yn **nhabl 6**:
  - Dyrannwyd £222 miliwn i SPA Cyllid Llywodraeth Leol (cam gweithredu *Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol*) ar ôl datganoli'r dreth gyngor;
  - Trosglwyddwyd £0.3 miliwn o SPA Cymunedau Diogelach (cam gweithredu Cadernid y Gwasanaethau Tân ac Achub) i gynyddu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân.
- Dyrannwyd £19 miliwn o'r cronfeydd refeniw wrth gefn (fel y gwelir yn **nhabl 6**) i SPA Cyllid Llywodraeth Leol (cam gweithredu *Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol*) mewn perthynas â'r dreth gyngor.
- Cynnydd o £61.4 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant (fel y dangosir yn **nhabl 7**):
  - £32.9 miliwn i SPA Cyllid Llywodraeth Leol (cam gweithredu*Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol*) o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan fod y Grant Adsefydlu Anabledd Dysgu yn cael ei gynnig fel rhan o'r grant cymorth refeniw;
  - £28.6 miliwn i SPA Cyllid Llywodraeth Leol (cam gweithredu *Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol*) o MEG Addysg a Sgiliau mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig i ddisgyblion ôl-16 mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig a disgyblion AAA a leolir y tu allan i'r sir;

- Mân drosglwyddiadau o’r SPA Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth (cam gweithredu *Adeiladu Democratiaeth Leol*). Mae'r rhain islaw’r trothwy o £250,000 ac felly nid yw’r manylion wedi’u cynnwys. Fodd bynnag, fel y gwelir yn **nhabl 7**, ymddengys iddynt gael eu trosglwyddo i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Nodir bod y gostyngiad o £2.6 miliwn yn yr AME i’w briodoli i’r rhagolygon diweddaraf o ran pensiynau’r gwasanaeth tân.

**Tabl 9: Newidiadau yn nyraniadau Llywodraeth Leol**

| Maes rhaglenni gwariant (SPA) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i diwygio | Cyllideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i diwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 4,325,747 | 0 | 4,325,747 | 4,628,294 | 302,547 | 7.0 | 4,352,147 | 0 | 4,352,147 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 52,064 | -52,064 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 52,064 | -52,064 | 0 |
| Cymunedau Diogelach | 16,701 | 0 | 16,701 | 16,373 | -328 | -2.0 | 16,701 | 0 | 16,701 |
| Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth | 40,979 | 0 | 40,979 | 40,825 | -154 | -0.4 | 40,979 | 0 | 40,979 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 14,461 | 0 | 14,461 | 14,461 | 0 | 0.0 | 14,461 | 0 | 14,461 |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 2,591 | 0 | 2,591 | 2,591 | 0 | 0.0 | 2,591 | 0 | 2,591 |
| Estyn | 12,364 | 0 | 12,364 | 12,364 | 0 | 0.0 | 12,364 | 0 | 12,364 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 174,212 | -174,212 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 173,574 | -173,574 | 0 |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | 173,179 | -173,179 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 173,179 | -173,179 | 0 |
| Teithio Cynaliadwy | 82,302 | -82,302 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 83,685 | -83,685 | 0 |
| Gwella Dioeglwch ar y Ffyrdd | 4,717 | -4,717 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 4,713 | -4,713 | 0 |
| **CYFANSWM Y REFENIW** | **4,899,317** | **-486,474** | **4,412,843** | **4,714,908** | **302,065** | **6.8** | **4,926,458** | **-487,215** | **4,439,243** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 20,000 | 0 | 20,000 | 20,000 | 0 | 0.0 | 20,000 | 0 | 20,000 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 10,950 | -10,950 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 10,950 | -10,950 | 0 |
| Cymunedau Diogelach | 2,639 | 0 | 2,639 | 2,639 | 0 | 0.0 | 2,639 | 0 | 2,639 |
| Estyn | 281 | 0 | 281 | 281 | 0 | 0.0 | 281 | 0 | 281 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 48,551 | -48,551 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 63,204 | -63,204 | 0 |
| Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd | 107,891 | -107,891 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 121,046 | -121,046 | 0 |
| Teithio Cynaliadwy | 41,640 | -41,640 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 39,532 | -39,532 | 0 |
| Gwella a Chynnal y Seilwaith Ffyrdd Lleol | 13,667 | -13,667 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 13,667 | -13,667 | 0 |
| Gwella Dioeglwch ar y Ffyrdd | 6,900 | -6,900 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 6,900 | -6,900 | 0 |
| **CYFANSWM Y CYFALAF** | **252,519** | **-229,599** | **22,920** | **22,920** | **0** | **0.0** | **278,219** | **-255,299** | **22,920** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | |
| Cyllid Llywodraeth Leol | 24,488 | 0 | 24,488 | 21,856 | -2,632 | -10.7 | 24,488 | 0 | 24,488 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd | 27,918 | -27,918 | 0 | | | | 28,946 | -28,946 | 0 |
| **CYFANSWM YR AME** | **52,406** | **-27,918** | **24,488** | **21,856** | **-2,632** | **-10.7** | **53,434** | **-28,946** | **24,488** |
| DEL Refeniw | 4,899,317 | -486,474 | 4,412,843 | 4,714,908 | 302,065 | 6.8 | 4,926,458 | -487,215 | 4,439,243 |
| DEL Cyfalaf | 252,519 | -229,599 | 22,920 | 22,920 | 0 | 0.0 | 278,219 | -255,299 | 22,920 |
| **CYFANSWM Y DEL** | 5,151,836 | -716,073 | 4,435,763 | 4,737,828 | 302,065 | 6.8 | 5,204,677 | -742,514 | 4,462,163 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 52,406 | -27,918 | 24,488 | 21,856 | -2,632 | -10.7 | 53,434 | -28,946 | 24,488 |
| **CYFANSWM Llywodraeth Leol** | 5,204,242 | -743,991 | 4,460,251 | 4,759,684 | 299,433 | 6.7 | 5,258,111 | -771,460 | 4,486,651 |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau’r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 7. Cymunedau a Threchu Tlodi

Mae **tabl 10** yn crynhoi'r newidiadau ar lefel y meysydd rhaglenni gwariant (SPA) yn y MEG Cymunedau a Threchu Tlodi.

Crëwyd y portffolio newydd hwn drwy drosglwyddo cyfrifoldebau, a chyllidebau, o feysydd portffolio eraill. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaethau'n ymwneud â:

- Cefnogi Cymunedau a Phobl - SPA a droslgwyddwyd yn ei gyfanrwydd o'r MEG Llywodraeth Leol;
- Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd - elfen o'r arian wedi'i drosglwyddo o SPA Gwasanaethau Cymdeithasol yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Diwygio lles - arian wedi'i drosglwyddo o SPA Gweithlu Medrus yn y MEG Addysg a Sgiliau;
- Cydraddoldeb a chynhwysiant - arian wedi'i drosglwyddo o SPA Rhaglenni Canolog yn MEG y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu;
- Datblygu cynaliadwy - arian wedi'i drosglwyddo o SPA y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd yn y MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd

O'u cymharu â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, mae'r newidiadau arfaethedig yn y gyllideb atodol yn golygu bod:

- Cynnydd o £12.7 miliwn, neu 6.4 y cant, yn y TME.
- Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i gynnydd o £12.7 miliwn (6.4 y cant) yng nghyfanswm y DEL. Nid oes AME yn y MEG hwn.
- Mae'r newid yng nghyfanswm y DEL i'w briodoli'n llwyr i gynnydd o £12.7 miliwn (7.3 y cant) yn y DEL refeniw. Nid oes newidiadau yn y DEL cyfalaf.

Mae'r cynnydd o £12.7 miliwn yn y DEL refeniw'n cynnwys:

- £12.4 million a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU (fel y gwelir yn **nhabl 6**), i SPA Cefnogi Cymunedau a Phobl (cam gweithredu *Trechu Tlodi*), ar ôl diddymu'r Gronfa Gymdeithasol Ddewisol.
- Cynnydd o £330,000 o ganlyniad i drosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant (fel y dangosir yn **nhabl 7**):
  - £300,000 i SPA/cam gweithredu Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â Chydlyniant Cymunedol; a
  - £30,000 i SPA Cefnogi Cymunedau a Phobl (cam gweithredu *Trechu Tlodi*). Mae hyn islaw'r trothwy o £250,000 ac felly nid yw'r manylion wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, fel y gwelir yn **nhabl 7**, ymddengys iddo gael ei drosglwyddo i MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

## Tabl 10: Newidiadau yn nyraniadau'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi.

| Maes rhaglenni gwariant (SPA) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i diwygio | Cyllideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i diwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | |
| Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 0 | 117,538 | 117,538 | 117,538 | 0 | 0.0 | 0 | 127,538 | 127,538 |
| Cefnogi Cymunedau a Phobl | 0 | 54,704 | 54,704 | 67,097 | 12,393 | 22.7 | 0 | 53,349 | 53,349 |
| Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb | 0 | 2,621 | 2,621 | 2,921 | 300 | 11.4 | 0 | 2,621 | 2,621 |
| **CYFANSWM Y REFENIW** | **0** | **174,863** | **174,863** | **187,556** | **12,693** | **7.3** | **0** | **183,508** | **183,508** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 24,450 | 24,450 | 24,450 | 0 | 0.0 | 0 | 16,450 | 16,450 |
| **CYFANSWM Y CYFALAF** | **0** | **24,450** | **24,450** | **24,450** | **0** | **0.0** | **0** | **16,450** | **16,450** |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM YR AME** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0.0** | **0** | **0** | **0** |
| DEL Refeniw | 0 | 174,863 | 174,863 | 187,556 | 12,693 | 7.3 | 0 | 183,508 | 183,508 |
| DEL cyfalaf | 0 | 24,450 | 24,450 | 24,450 | 0 | 0.0 | 0 | 16,450 | 16,450 |
| **CYFANSWM Y DEL** | **0** | **199,313** | **199,313** | **212,006** | **12,693** | **6.4** | **0** | **199,958** | **199,958** |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0.0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM Cymunedau a Threchu Tlodi** | **0** | **199,313** | **199,313** | **212,006** | **12,693** | **6.4** | **0** | **199,958** | **199,958** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil yn seiliedig ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a gohebiaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 8. Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Mae **tabl 11** yn crynhoi'r newidiadau yn y meysydd rhaglenni gwariant (SPA) yn MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Bu nifer o newidiadau strwythurol yn y MEG hwn yn dilyn newidiadau yn y portffolio. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer trafnidiaeth wedi'i throsglwyddo i'r portffolio hwn o'r portffolio Llywodraeth Leol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer materion gwledig wedi'i throsglwyddo o'r portffolio hwn i MEG Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Mae cyllid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi'i drosglwyddo i'r portffolio Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

O'u cymharu â ffigurau Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'u hailddatgan, mae'r newidiadau arfaethedig yn y gyllideb atodol yn golygu bod:

- Cynnydd o £0.7 miliwn, neu 0.1 y cant, yn y TME.
- Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i gynnydd o £0.7 miliwn (0.1 y cant) yng nghyfanswm y DEL. Nid oes unrhyw newidiadau yn yr AME.
- Mae'r newid yng nghyfanswm y DEL yn cynnwys gostyngiad o £1.3 miliwn (0.2 y cant) yn y DEL refeniw, a gaiff ei wrthbwyso gan gynnydd o £2 filiwn (0.6 y cant) yn y DEL cyfalaf.

Mae'r gostyngiad o £1.3 miliwn yn y DEL refeniw'n cynnwys:

- Trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant (fel y gwelir yn **nhabl 7**):
  - £1.26 miliwn a drosglwyddwyd o SPA Sectorau a Busnes (cam gweithredu *Sectorau*) i MEG y Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â chostau rhaglen y swyddfeydd rhyngwladol; a
  - Mân drosglwyddiadau gwerth £50,000 at ei gilydd o SPA Sectorau a Busnes (cam gweithredu *Sectorau*). Mae'r rhain islaw'r trothwy o £250,000 ac felly nid yw'r manylion wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, fel y gwelir yn **nhabl 7**, ymddengys iddynt gael eu trosglwyddo i MEG Tai ac Adfywio (£17,000) a MEG Diwylliant a Chwaraeon (£33,000).

Mae'r cynnydd o £2 filiwn yn y DEL cyfalaf yn cynnwys:

- £1.2 miliwn a ddyrannwyd o'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn (fel y gwelir yn **nhabl 6**) i SPA Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd (cam gweithredu *Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd*) mewn perthynas â gwaith adeiladu newydd ar hyd rheilffordd Glynebwy, gan gynnwys gorsaf newydd.
- £0.8 miliwn a drosglwyddwyd o MEG Tai ac Adfywio (fel y gwelir yn **nhabl 7**). Dyrannwyd hyn i SPA Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd (cam gweithredu *Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd*) mewn perthynas â gwella gorsaf Aberystwyth.

## Tabl 11: Newidiadau yn nyraniadau'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

| Maes rhaglenni gwariant (SPA) | Cyllideb Derfynol 2013-14 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2013-14 wedi'i diwygio | Cyllideb Atodol 2013-14 | Newid 2013-14 rhwng y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol | | Cyllideb Derfynol 2014-15 (Tach 2012) | Newidiadau Strwythurol | Cyllideb Derfynol 2014-15 wedi'i diwygio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *£000* | *Canran* | *£000* | *£000* | *£000* |
| **DEL REFENIW** | | | | | | | | | |
| Sectorau a Busnes | 57,847 | -5,450 | 52,397 | 51,089 | -1,308 | -2.5 | 58,579 | -5,450 | 53,129 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 14,269 | 0 | 14,269 | 14,269 | 0 | 0.0 | 14,895 | 0 | 14,895 |
| Digwyddiadau Mawr | 4,740 | 0 | 4,740 | 4,740 | 0 | 0.0 | 4,740 | 0 | 4,740 |
| Seilwaith | 20,642 | 0 | 20,642 | 20,642 | 0 | 0.0 | 22,171 | 0 | 22,171 |
| Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol | 10,138 | 0 | 10,138 | 10,138 | 0 | 0.0 | 10,060 | 0 | 10,060 |
| WEFO | 1,522 | -1,522 | 0 | 0 | | | 1,522 | -1,522 | 0 |
| Materion Gwledig | 75,116 | -75,116 | 0 | 0 | | | 74,916 | -74,916 | 0 |
| Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 0 | 174,212 | 174,212 | 174,212 | 0 | 0.0 | 0 | 173,574 | 173,574 |
| Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | 0 | 173,179 | 173,179 | 173,179 | 0 | 0.0 | 0 | 173,179 | 173,179 |
| Teithio Cynaliadwy | 0 | 82,302 | 82,302 | 82,302 | 0 | 0.0 | 0 | 83,685 | 83,685 |
| Gwella Dioeglwch ar y Ffyrdd | 0 | 4,717 | 4,717 | 4,717 | 0 | 0.0 | 0 | 4,713 | 4,713 |
| **CYFANSWM Refeniw** | **184,274** | **352,322** | **536,596** | **535,288** | **-1,308** | **-0.2** | **186,883** | **353,263** | **540,146** |
| **DEL CYFALAF** | | | | | | | | | |
| Sectorau a Busnes | 56,519 | 0 | 56,519 | 56,519 | 0 | 0.0 | 66,144 | 0 | 66,144 |
| Gwyddoniaeth ac Arloesi | 3,613 | 0 | 3,613 | 3,613 | 0 | 0.0 | 11,979 | 0 | 11,979 |
| Seilwaith | 36,456 | 0 | 36,456 | 36,456 | 0 | 0.0 | 28,456 | 0 | 28,456 |
| Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol | 59 | 0 | 59 | 59 | 0 | 0.0 | 68 | 0 | 68 |
| Materion Gwledig | 14,423 | -14,423 | 0 | 0 | | | 11,723 | -11,723 | 0 |
| Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 0 | 48,551 | 48,551 | 48,551 | 0 | 0.0 | 0 | 63,204 | 63,204 |
| Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd | 0 | 107,891 | 107,891 | 109,916 | 2,025 | 1.9 | 0 | 121,046 | 121,046 |
| Teithio Cynaliadwy | 0 | 41,640 | 41,640 | 41,640 | 0 | 0.0 | 0 | 39,532 | 39,532 |
